



Yr hyn a wnaeth Iesu yn fwy na dim arall, oedd dangos cariad Duw drwy ddod i'r ddaear i fyw a marw i'n hachub ni

Beth bynnag wnaeth Iesu, fe'i gwnaeth er mwyn eraill, ac ar noson olaf ei fywyd fe olchodd draed ei ddisgyblion – gan eu gwasanaethu yn y ffordd fwyaf gostyngedig. Dywedodd:

Rhaid i chi garu'ch gilydd yn union fel dwi wedi'ch caru chi. Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd.

Ioan 13;34,35 (beibl.net)

Gadewch i ni ofyn iddo ddangos i ni sut allwn ni wneud hynny.

Mae sawl ffordd o ofalu am eraill yn ein hysgolion.

Hefyd sut allwn ni garu'r byd o'n cwmpas wrth ofalu am natur a gwneud ein gorau i beidio ychwanegu at y llygredd sy'n achosi cymaint o ddifrod i'n trysor o blaned.

## Gweddïau (ar gyfer plant)

Arglwydd Iesu, a wnei di ddangos i ni sut allwn ni wasanaethu eraill yn ein hysgolion. Agor ein llygaid i weld angen pobl;  
Agor ein clustiau i ni glywed pobl pan maen nhw am i ni wrando;  
Agor ein calonnau fel y byddwn yn barod i fynd allan o'n ffordd a rhoi o'n hamser;  
Gofynnwn hyn yn dy enw di. Amen.

Dad. Rwyd ti wedi creu byd mor hardd ac wedi'i lenwi â miliynau o wahanol anifeiliaid, adar, pysgod a phlanhigion.  
Rydyn ni'n teimlo mor drist fod hyn i gyd yn cael ei ddifetha - felly rydyn ni'n gofyn am gael bod yn rhan o dy gynllun achub.  
Dangos i ni'r ffyrdd gorau i garu'r ddaear a phopeth sydd ynddi a hynny bob dydd.  
Ac wrth i'r Gwanwyn ddod â bywyd newydd, byddwn yn dy foli â chalonnau diolchgar! Amen

Arglwydd,

Gofynnwn i ti ein helpu i achub y greadigaeth odidog a greaist ar ein cyfer.

Rydyn ni am gael gwared â'r plastig sy'n parhau i lenwi'n moroedd a'n cefnforoedd. Cyn hir, bydd ein hesgeulustod ni'n golygu y bydd creaduriaid y môr yn marw. Rhaid i ni eu hamddiffyn.

Gofynnwn am dy help i argyhoeddi pawb o'r angen i weithredu. Amen

*Grace a Xanthe (sydd bellach ym Mlwyddyn 5)*





Dyweddodd Iesu; 'Rhaid i chi garu'ch gilydd yn union fel dwi wedi'ch caru chi. Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd.'

*Ioan 13:34,35 (beibl.net)*

Beth ydy cariad yng nghyd-destun bywyd ysgol? Dangosodd Iesu'r Rabi gariad at ei ddisgyblion mewn gwahanol ffyrdd. Weithiau byddai'n addfwyn – ac ar adegau eraill byddai'n fwy llym, yn disgwyl iddyn nhw dyfu yn eu ffydd. Caent gyfnodau o seibiant a gorffwys, ac yna caent eu herio i dderbyn caledi corfforol ac i ddangos dewrder yn wyneb gwrthwynebwyr. Yr hyn a nodweddiad cariad Crist oedd aberth ac arweinyddiaeth ar ffurf gwas. Roedd ei weddiâu, ei ddysgeidiaeth a'i weithredoedd bob amser yn cyfleu gwirionedd, sancteiddrwydd, tosturi a charedigrwydd ei Dad nefol.

Mae hynny'n nod uchel i ni ymgynghraedd ato! Mae'r fath safonau a chariad y tu hwnt i ni heb nerth yr Ysbryd Glân sy'n llawn doethineb a nerth. Ond os rhoddodd Iesu orchymyn i'w ddisgyblion bryd hynny i garu fel y carodd ef, mae'n rhoi'r un gorchymyn i ni, Gristnogion yr unfed ganrif ar hugain, yn ein bywyd bob dydd.

*Iesu Grist, ein Hathro a'n Harglwydd, gofynnwn i ti roi ynom y cariad sanctaidd hwnnw sy'n esgor ar lawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunan-reolaeth. Rho i ni dy ras er mwyn ein galluogi i brofi i'r byd ein bod yn ddisgyblion i ti. Amen.*

## Gweddïau Caru'n Hysgolion

Dduw dad,

Un peth mae cyfnod y coronafeirws wedi'i ddangos i ni yw pwysigrwydd ein hysgolion i blant a phobl ifanc.

Nid o ran darparu addysg yn unig, ond hefyd o ran darparu gofal, diogelwch, cwmni, clust i wrando a hyd yn oed bwyd.

Diolch am ymroddiad yr athrawon a'r staff.

A wnei di gynorthwyo'r plant a'r ieuenctid sy'n fregus, waeth beth yw'r broblem, i ymddiried yn eu hathrawon, a dyro lygaid i sylwi ar unrhyw dristwch neu bryder, clust i wrando a doethineb i holl staff ein hysgolion.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu oedd mor barod i groesawu a bendithio plant.

Amen

(Catrin Roberts, athrawes a gweinidog wedi ymddeol)

Dduw cariadus, helpa ni i ddangos dy dosturi i bawb. Dad, dysga ni i fod yn fwy tosturiol i'r rhai yn ein hysgolion sy'n cael bywyd yn anodd oherwydd straen.

Agor ein llygaid a'n clustiau i'r rhai sydd angen rhywun i wrando arnynt. Helpa ni i ddeall yr heriau y mae disgyblion ac athrawon yn eu hwynebu.

Arwain ni â'th ddoethineb i wybod sut y gallwn gefnogi disgyblion ac athrawon.

Rho i ni dy eiriau o garedigrwydd er mwyn rhoi anogaeth i eraill, yn enwedig y rhai sydd mewn angen. Helpa ni i fod yn ddwylo ac yn draed i ti yn rhannu dy gariad â'r rhai y byddwn yn eu cyfarfod mewn ysgolion.

Boed i'th Ysbryd Glân ein hysgogi i wybod pryd a sut y dylem rannu'r

Newyddion Da. Amen.

(Undeb y Gair)

Annwyl Dduw Dad,

Rydym yn codi atat bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu hunain yn gofalu am aelodau o'u teulu. Rho'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar yr union adeg iawn.

Diolch am y cariad a'r caredigrwydd sy'n cael ei ddangos ganddynt i'r rhai na allant ymdopi heb eu cymorth. Llanw hwy â'th gariad ac â'th nerth ar y dyddiau sy'n anodd. Gad iddynt sylweddoli dy fod di gyda nhw bob amser. Amen

(Agor y Llyfr)

Ceir gweddïau pellach ar y Wefan, ar ein tudalen Gweddïau Cymraeg

<https://www.prayforschools.org/1107-2/>

## Syniadau ar gyfer grwpiau gweddi, eglwysi a'r rhai sy'n eiriol yn eu cartrefi

### **Gweddiwch**

Beth am i chi gyfarfod â phobl o'r un meddwl a gweddio dros eich ysgol bob wythnos, bob mis, bob hanner tymor. Trefnwch ddyddiad, amser a lleoliad sy'n gyfleus i bawb.

Cysylltwch â Christnogion a grwpiau gweddi eraill ac awgrymwch eu bod yn canolbwyntio ar ysgolion a phobl ifanc yn ystod Chwefror.

Gofynnwch i athrawon neu staff ysgolion a oes ganddyn nhw geisiadau am weddi. Mae rhai grwpiau wedi cael caniatâd i osod blwch gweddi yn y dderbynfa neu'r ystafell staff.

Gweddiwch dros bawb rydych chi'n eu hadnabod sy'n gweithio mewn ysgolion gan gynnig anogaeth. Â pha ddsbarthiadau neu ysgolion y mae gan blant ac oedolion eich eglwys gysylltiad?

Gweddiwch dros uwch arweinwyr, athrawon, cynorthwywyr dosbarth a chymuned yr ysgol yn ei chyfanrwydd, dros y plant a'r bobl ifanc wrth iddyn nhw ddal ati i ymdopi ag effeithiau Cofid-19.

Cofiwch am ofalwyr ifanc a gweddiwch y byddan nhw'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen ac yn cael cyfle i ymlacio. Gweddiwch hefyd y bydd y sawl sydd ag anghenion arbennig yn llwyddo i ymdopi â'r newidiadau niferus sy'n effeithio ar eu bywyd gartref ac yn yr ysgol.

Efallai y byddai modd cynnwys rhai o'r syniadau gweddi hyn yn llythyrau newyddion neu hysbysiadau eich eglwys neu eich grŵp gwaith ysgol.

### **Diolchwch**

Dywedwch "Diolch" wrth athro neu aelod arall o'r staff – beth am lawr lwytho ein cerdyn pdf o'r wefan.

Gallech goginio cacen neu gyflwyno anrheg: Rhowch wên ar wyneb yr athrawon amser coffi.

Beth am gynnwys eich eglwys/grŵp gweddi i helpu a llunio "pecyn gofal" o arnhegion bach i'w gosod mewn ystafell staff. Gofynnwch am gyfraniad gan yr eglwys, byddwch yn greadigol eich hun a gofynnwch i ffrindiau talentog greu eitemau syml.

Gwyddom am grwpiau gweddi sydd wedi rhoi rhoddion o flodau neu blanhigion; cacennau, bisgedi; a hyd yn oed pecyn o ddeunydd ysgrifennu sy'n cynnwys pennau ysgrifennu gwahanol liw, papur, tâp gludiog a ffyn glud. Efallai yr hoffech gysylltu â busnesau lleol i weld a fydden nhw'n hoffi gwneud cyfraniad.

Holwch ysgrifennydd neu bennaeth yr ysgol, neu'r Gymdeithas Rhieni Athrawon (CRhA) a yw'r ysgol angen unrhyw beth penodol.

**Cofiwch gadw at ganllawiau Cofid-19 a rhowch y rhoddion/anrhegion mewn bag bapur.**



### **Cynigiwch help.**

Ymunwch yng ngweithgarwch CRhA yr ysgol.

Rhowch gymorth i'r ysgol gychwyn cynllun "Gwyrdd", ailgylchu, defnyddio llai o blastig.

Rhowch gymorth i greu ardal natur awyr-agored neu roi help llaw gyda thir yr ysgol.

Plannwch hadau, bylbiau neu hyd yn oed goed! – gweler

<https://www.plantbritain.co.uk/>

Cynigiwch help i godi sbwriel.

**Rhywbeth y byddai modd meddwl a gweddïo amdano i'r dyfodol wedi i**

**Cofid-19 fynd heibio:**

Beth am ddarllen gyda'r plant neu gynorthwyo yn y dosbarth, neu ymuno â thîm Agor y Llyfr.

Edrychwch ar y Rhestr o Gyfleon i Wirfoddoli ar ein gwefan

Efallai y gallech gynorthwyo yn rheolaidd.

<https://www.prayforschools.org/get-involved/volunteer-opportunities/>

## Syniadau ar gyfer Plant oedran cynradd

Cofiwch gadw at ganllawiau Cofid-19 eich ysgol

- ♥ **Gweddïwch:** dros eich athrawon, cynorthwywyr dosbarth, goruchwylwyr amser cinio a gweithwyr cefnogi. Gofynnwch i arweinwyr eich Ysgol Sul weddio dros eich ysgol.
- ♥ **Diolchwch:** i'r staff amser cinio / y gofalwr / ysgrifennydd yr ysgol yn ogystal â'ch athro a'r cynorthwydd dosbarth.
- ♥ **Beth am wneud cerdyn diolch** i'ch athro, cynorthwydd dosbarth, gofalwr neu'r goruchwylwyr amser cinio. Ysgrifennwch lythyr, neu beth am ddefnyddio cerdyn diolch Caru'n Hysgolion (pdf). Gallech dynnu llun blodyn i gynrychioli pob plentyn yn eich dosbarth!
- ♥ **Cynigiwch help llaw:** Gofynnwch sut y gallwch chi gynorthwyo yn eich dosbarth neu amser egwyl.
- ♥ **Cofiwch ymddwyn yn dda a byddwch yn barod i helpu** yn y dosbarth.
- ♥ **Byddwch yn barod i helpu** allan ar fuarth yr ysgol. Beth am gasglu sbwriel (bydd yn rhaid holi'r ysgol yn gyntaf, gwisgo menig a gofyn caniatâd eich athro)
- ♥ **Gweddïwch** dros eich ffrindiau a'r plant nad ydych yn eu hadnabod cystal.
- ♥ **Croeso Cynnes** - Ydych chi'n gwybod enw pawb yn eich swigen/bybl ysgol?
- ♥ **Byddwch yn garedig** wrth bawb. Gwenwch ar bobl bob dydd. Dywedwch rywbeth neis. Byddwch yn barod i rannu. Dangoswch ofal dros eich gilydd, yn arbennig y rhai sy'n cael pethau'n anodd.
- ♥ **Ufuddhewch i reolau'r ysgoll!**
- ♥ **Byddwch yn garedig** wrth yr amgylchedd - ceisiwch gael cinio di-blastig a chofiwch ddefnyddio potel ddŵr y gellir ei hail-ddefnyddio.  
<https://www.plasticfreejuly.org/get-involved/what-you-can-do/at-school/>
- ♥ **Holwch** yr oedolyn sy'n gofalu amdanoch sut ddiwrnod gawson nhw wrth fynd adref neu amser te

Am syniadau gwych eraill ewch i Stewardship and 40acts

<https://40acts.org.uk/>

## **Syniadau ar sut y gall disgyblion oedran uwchradd “Garu’n hysgolion”**

**Gofynnwn i chi gadw at ganllawiau Cofid-19 eich ysgol.**



### **Gweddïwch**

Gweddïwch dros eich ffrindiau a’r rhai nad ydych yn eu hadnabod cystal.  
Gweddïwch dros bawb y gwyddoch amdanyn nhw sy’n gweithio yn eich  
ysgol/coleg gan gynnig anogaeth iddyn nhw.

Ceisiwch ddarganfod ym mha ysgol/ym mha ddosbarthiadau y mae plant/pobl  
ifanc eich eglwys ac ewch ati i weddio dros yr ysgolion a’r dosbarthiadau.  
Gweddïwch dros eich athrawon, cynorthwywyr dosbarth a chymuned yr ysgol  
yn ei chyfanrwydd, dros y plant a’r bobl ifanc – gan ganolbwyntio efallai ar  
ddosbarth gwahanol bob dydd.

Undeb Cristnogol – gofynnwch i’r athrawon neu’r staff a oes ganddynt unrhyw  
geisiadau penodol am weddi. Mae rhai Undebau Cristnogol neu grwpiau  
gweddi wedi derbyn caniatâd i osod blwch gweddi yn y Dderbynfa neu yn yr  
ystafell staff.

Rhannwch eich syniadau â’ch eglwys a gofynnwch i’r bobl weddio drosoch.



### **Dweud Diolch**

Dywedwch “Diolch” wrth athro neu aelod arall o’r staff.

Prynwch neu goginiwch gacennau neu paratowch siocledi ayyb neu gallech  
gyflwyno rhodd. Rhowch wên ar wyneb yr athrawon amser coffi.

Byddwch yn greadigol a gwnewch gerdyn diolch. Mae gennym gerdyn pdf ar  
ein gwefan os yw’n well gennych ei ddefnyddio.

Ewch ati i gynnwys eich eglwys/grŵp ieuencid - gallech efallai greu pecyn  
Gofal e.e. hufen dwylo, siocled neu pen ysgrifennu ffansi. Gofynnwch am  
gyfraniad gan yr eglwys neu grŵp gweddi neu ewch ati eich hun i fod yn  
greadigol a gofynnwch i unrhyw ffrindiau talentog wneud anrhegion syml.

**Cofiwch gadw at ganllawiau Cofid-19 a rhowch y rhoddion/anrhegion mewn  
bag bapur.**



## ♥ Cynigiwch helpu:

Mae'n bosib fod angen gwneud gwaith yn yr ysgol. Byddai gwneud hyn yn yr awyr agored yn haws eleni oherwydd Cofid 19.

Siaradwch â gofalwr/rheolwr yr ysgol – efallai y gallech chi a rhai ffrindiau gynorthwyo ar ôl ysgol neu amser cinio.

Rhowch help i'r ysgol gychwyn cynllun "Gwyrdd", ailgylchu, defnyddio llai o blastig. Beth am roi'r cynllun "Gorffennaf di-blastig" ar waith yn ystod pob mis!

Dewiswch opsiynau di-blastig pan yn bwyta'ch cinio a defnyddiwch botel y gellir ei hail-ddefnyddio.

<https://www.plasticfreejuly.org/>

Rhowch help llaw yng ngardd yr ysgol neu helpwch greu ardal natur awyr-agored.

Plannwch hadau, bylbiau neu goed hyd yn oed! Gweler

<https://www.plantbritain.co.uk/>

Cynigiwch godi sbwriel.

Trefnwch ddigwyddiad Masnach Deg/neu ewch ati i hyrwyddo Masnach Deg – rhowch help i bobl dramor tra'n mwynhau cynnyrch sy'n cael ei fasnachu'n deg.

Gofalwch am eich gilydd, yn enwedig y rhai sy'n cael pethau'n anodd.

Gwnewch i bobl wenu – efallai wrth anfon cerdyn o anogaeth.

Rydym wedi clywed am ddisgyblion uwchradd yn helpu yn yr ysgol gynradd leol – beth am ystyried gwneud hynny yn yr hydref 2022.

Mae mwy o syniadau gwych ar gael gan Stewardship and 40 acts

<https://40acts.org.uk/>

